CARDIFF
Cymdeithas
CIVIC
Ddinesig
SOCIETY
Caerdydd

Registered Charity No. 517544
www.cardiffcivicsociety.co.uk

Atodiad Arbennig yr Eisteddfod

Newyddion Dinesig

Haf 2008

Golygydd: Karen Allen

Neges y Cadeirydd

Creu Mannau Gwell: Dyfodol Cynaliadwy i Gaerdydd

Mae Cymdeithas Ddinesig Caerdydd yn gweithio ar y cyd gydag Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru a chymdeithasau amwynderau eraill cyffelyb yng Nghaerdydd a'r cyffiniau. Hyrwyddwn falchder dinesig a gweithredu cymunedol fel modd i hybu dylunio da, datblygiad cynaliadwy ac ansawdd bywyd i bawb, yn y mannau lle'r ydym yn byw ac yn gweithio.

Gobeithiwn y bydd y rhifyn Eisteddfod arbennig hwn o Newyddion Dinesig yn rhoi blas o'r pynciau eang eu hystod y byddwn yn eu cwmpasu wrth geisio hybu parch i'r amgylchedd adeiledig yng nghymunedau brith Caerdydd.

Mae Cymdeithas Ddinesig Caerdydd yn agored i bob dinesydd sydd â diddordeb yn hanes, presennol a dyfodol, Caerdydd.

Mawr obeithiwn y gwnewch chi ymuno â ni!

Croeso.

Ann-Marie Petty, Cadeirydd

Cymdeithas Ddinesig Caerdydd
Ffôn: (029) 2037 1472
info@cardiffcivicsociety.co.uk
www.cardiffcivicsociety.co.uk

Cenhadaeth Cymdeithas Ddinesig Caerdydd

Mae Cymdeithas Ddinesig Caerdydd yn elusen gofrestredig â'r amcanion canlynol:

- Hyrwyddo safonau uchel mewn cynllunio, pensaernïaeth ac amgylchedd Dinas Caerdydd neu sy'n cael effaith ar y ddinas..
- Addysgu'r cyhoedd am yr amgylchedd (daearyddiaeth), hanes, byd natur a phensaernïaeth sydd o fudd yn yr ardal, gyda'r amcan o ysbrydoli gwerthfawrogiad o ddiwylliant dwfn a threftadaeth yr ardal a chodi ansawdd yr amgylchedd.
- I sicrhau cynnal, cadw, gwarchod, datblygu a gwella nodweddion o ddiddordeb hanesyddol neu o fudd i'r cyhoedd yn Ninas Caerdydd.

Llun: David Williams

Cymdeithas Ddinesig Caerdydd: Noddwyr balch y Fedal Aur am Bensaernïaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2008

Datblygu Caerdydd yn y Dyfodol

Cynhadledd undydd
Sadwrn 18 Hydref 2008
yn Neuadd y Sir

Datblygu Caerdydd yn y Dyfodol yw teitl cynhadledd undydd a drefnir ar y cyd gan Gymdeithas Ddinesig Caerdydd, Cymdeithas Radur a Threforgan, Cymdeithas Penarth, Cymdeithas Llandaf a Chymdeithas Rhiwbeina.
Bydd y siaradwyr yn cynnwys Yr Athro John Punter o'r Ysgol Cynllunio Dinesig a Rhanbarthol, Prifysgol Caerdydd; Sue Essex, cyn Weinidog Cynulliad Cymru dros Gyllid a Llywodraeth Leol; Stuart Williams o Adran Cynllunio Strategol Cyngor Caerdydd. I gael mwy o wybodaeth, a fyddech chi cystal â ffonio Cymdeithas Ddinesig Caerdydd (029) 2037 1472 / info@cardiffcivicsociety.co.uk

Llun: David Williams

Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd

Dyma gyfle i chi ddweud eich dweud am ddatblygiad pellach Caerdydd

Mae'r broses o lunio Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd, am y cyfnod yn arwain hyd at 2020, ar fin cyrraedd cyfnod allweddol iawn yn yr hydref pan fydd cam nesaf yr ymgynghori â'r cyhoedd yn digwydd.

Gall unrhyw un sy'n awyddus i gael gwybodaeth am hyn drefnu iddynt gael eu hychwanegu at gronfa ddata ymgynghori Cyngor Caerdydd trwy anfon eu manylion at yr Adran Cynllunio Strategol yng Nghyngor Caerdydd:
developmentplan@Caerdydd.gov.uk
Ffôn: (029) 2087 2000

Mae Cynulliad Cymru wedi paratoi cyfarwyddyd defnyddiol i esbonio'r modd y gall cymunedau ddweud eu dweud, dan y teitl "CDLl Cymru: Cynllunio eich Cymuned - Cyfarwyddyd ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol". Gellir lawr lwytho hwn trwy ymweld â www.wales.gov.uk a theipio "*Planning Your Community*" yn y blwch Chwilio neu ffonio 0845 010 3300.

Ty Unnos

Hen draddodiad Cymreig yn ysbrydoli tai fforddiadwy ar gyfer yr 21ain ganrif

Mae'r ***Tŷ Unnos*** yn hen gredo draddodiadol Gymreig yn dyddio'n ôl i'r 17eg ganrif - os gallai unigolyn adeiladu tŷ ar dir comin mewn un noson, a chael tân i losgi ar yr aelwyd cyn gwawrio bore trannoeth, yna byddai'r tir yn eiddo i'r unigolyn, yn rhyddfraint. Mae amryw o'r chwedlau'n gysylltiedig â'r traddodiad hwn yn seiliedig ar gyfiawnder cymdeithasol; yn fynych, byddai teuluoedd digartref yn mentro arian gyda thirfeddianwyr pendefigaidd amlwg - i adeiladu tŷ dros nos ac felly sicrhau meddiant o'r tir.

Tŷ Unnos i'r 21ain ganrif

Wedi'i hysbrydoli gan y traddodiad Ty Unnos, mae **Coed Cymru** (yr elusen rheoli coetir yng Nghymru) ar hyn o bryd yn gweithio gydag **Ysgol Bensaernïaeth Cymru** a **Phrifysgol Cymru Bangor** i ddatblygu system o dai fforddiadwy gan ddefnyddio pren sy'n cael ei dyfu gartref. Mae systemau adeiladu tai parod drwy ddefnyddio pren eisoes yn ffynnu yn Sgandinafia, ond dyma'r tro cyntaf i systemau modwlar gael eu datblygu wedi'u seilio ar briodweddau pren Cymreig a dyfwyd yn lleol.

Mae'r system Tŷ Unnos yn un hynod o addasadwy a all greu ystod eang o fathau o dai o faintioli gwahanol yn seiliedig ar bedwar modiwl safonol. Cynlluniwyd y system mewn modd sy'n galluogi mentrau lleol bychain i ddefnyddio pren lleol i gynhyrchu pecynnau tai syml sy'n addas ar gyfer hunan-adeiladu neu adeiladu gyda chymorth. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â David Jenkins yn Coed Cymru, 01686 650777 / www.coedcymru.org.uk

Mae **Cymdeithas Ddinesig Caerdydd** yn teimlo'n falch ei bod wedi cefnogi'r prosiect arloesol hwn drwy noddi un o ymchwilwyr Ysgol Bensaerniaeth Cymru i fynychu cynhadledd ryngwladol ar gyfraniad pren tuag at gynaladwyedd yr amgylchedd adeiledig.

Yn ôl i'r tir: Caerdydd ar garlam i fywyd y rhandir

Yn y pum mlynedd ddiwethaf, gwelwyd cynnydd ffrwydrol o ddiddordeb mewn rhandiroedd yng Nghaerdydd - o ganlyniad i'r codiadau ym mhrisiau bwyd a'r awydd cynyddol gan bobl i fwyta bwydydd organig, wedi'u cynhyrchu'n lleol.

Mae'r rhan fwyaf o safleoedd rhandir yng Nghaerdydd yn llawn ac mewn rhai achosion mae'r rhestr aros yn tyfu'n gwbl anghymesur â nifer y lleiniau sydd ar gael, i'r fath raddau fel y gall pobl orfod aros am rai blynyddoedd. Yr enghraifft mwyaf trawiadol yw Rhiwbeina yng ngogledd Caerdydd, sydd â 10 llain yn unig, bob un yn eiddo i rywun, a rhestr aros sydd ar hyn o bryd yn 29 (Gorffennaf 2008).

Mae wedi bod yn egwyddor traddodiadol bod dinasyddion yn cael mynediad i safle rhandiroedd o fewn pellter rhesymol i'w cartref (sonnir yn aml am hanner milltir) ond bellach mae pobl yn teithio dipyn ymhellach ar draws Caerdydd i hawlio lleiniau sydd ar gael.

Mae eleni'n ganfed pen blwydd y Ddeddf Mân Ddaliadau a Rhandiroedd (1908), sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynghorau roi ystyriaeth i'w darpariaeth rhandiroedd, pan fyddant yn derbyn cais ysgrifenedig oddi wrth chwech o drigolion sy'n etholwyr cofrestredig neu'n drethdalwyr. Mae'n ymddangos braidd yn aneglur sut oedd y cymal hwn yn gweithredu'n ymarferol, ond mae Cymdeithas Genedlaethol Garddwyr Rhandir a Hamdden ac Ymddiriedolaeth Genedlaethol Gerddi Rhandir yn annog pobl i weithio gyda'u cynghorau lleol i ymchwilio i ddulliau arloesol o ddarparu rhandiroedd, e.e. trwy ffurfio partneriaethau gyda thirfeddianwyr lleol.

Mae'n gred gyffredin nad chwiw dros dro yw'r adfywiad mewn garddio rhandiroedd, yn arbennig wrth i'r cynnydd mewn prisiau olew barhau i effeithio ar brisiau bwyd. Yn wir, mae corff cynyddol o bobl yn meddwl y bydd bwyd yn y dyfodol yn dechrau llunio ein dinasoedd mewn modd na ddigwyddodd ers llawer degawd.

Fel y dywed y pensaer a'r awdur Carolyn Steel (Hungry City), mae dinasoedd wedi llwyddo i oresgyn daearyddiaeth a manteisio, mewn cyfnod o danwydd rhad, ar y gefn gwlad byd-eang i gael eu cyflenwadau bwyd. Yn y dyfodol, bydd yn rhaid i ddinasoedd ail-gysylltu â'u cefn gwlad leol trwy farchnadoedd ffermwyr, a bydd cwestiwn bwyd unwaith eto'n adennill lle canolig ym mhensaernïaeth a chynllunio dinesig.

Yn ei araith yng Ngŵyl y Gelli eleni, galwodd Llywydd newydd Cymdeithas y Pridd, Monty Don, ar ddinasoedd Prydain i gael ysbrydoliaeth gan Ciwba a manteisio i'r eithaf ar arddio dinesig trwy randiroedd, gerddi cymuned a chynlluniau compost.

Prosiect Trawsnewid Caerdydd: A fuoch chi erioed yn dyfalu am yr hyn y gall newid hinsawdd ac olew brig ei olygu i chi?

Ymateb lleol yw Prosiect Trawsnewid Caerdydd i heriau newid hinsawdd ac olew brig. Ar draws y DU mae pobl yn y mudiad trawsnewid, mewn pentrefi, trefi a dinasoedd, yn ymgynnull i godi ymwybyddiaeth o'r newidiadau y mae'n rhaid i ni eu gwneud, ac i weithio gyda'i gilydd i fod yn fwy hunan ddibynnol mewn meysydd fel bwyd, egni, gofal iechyd, swyddi a phenderfyniadau economaidd.

Mae ein ffordd gyfoes o fyw'n seiliedig ar argaeledd olew rhad. Tra bod optimistiaid yn sôn am tua ugain mlynedd, mae nifer cynyddol o arbenigwyr yn dweud y gallai dyddiau olew toreithiog a rhad ddod i ben o fewn cyn lleied â dwy neu dair blynedd. Mor hanfodol yw olew i'n ffordd o fyw presennol - o gludiant i gynhyrchu bwyd a nwyddau traul - bydd diwedd olew rhad yn cael effaith dirdynnol ar y dulliau o fyw sydd mor gyfarwydd i ni bellach. Eisoes gwelwn y broblem ar y gorwel wrth i bris olew ddechrau codi, gan effeithio ar brisiau nwyddau eraill, bwyd yn fwyaf arbennig.

Mae Prosiect Trawsnewid Caerdydd yn wahoddiad i helpu i greu gofod i bobl Caerdydd ddysgu'r sgiliau newydd sy'n angenrheidiol i ddygymod â'r newidiadau yn ein bywydau a pharatoi am fywyd bythol hapus mewn byd mwy cynaliadwy. Yn gynyddol, gwelir yr heriau sy'n gysylltiedig ag olew brig fel 'larwm deffro' - cyfle i ail-ystyried o ddifrif ein perthynas â'n gilydd ac â byd natur, a chyfle i adeiladu cymdeithas fwy dygn a fydd yn gynaliadwy yn y dyfodol.

Mae gennym raglen o ddigwyddiadau yn yr arfaeth ar gyfer yr hydref, gan ddechrau gyda digwyddiad gyda siaradwr ar 8 Medi yn Dempsey's. Pam na ddewch chi i ymuno â ni i gael gwybod mwy? Neu anfonwch e-bost a byddwn yn rhoi'r newyddion diweddaraf i chi am ddigwyddiadau a gweithgareddau: info@cardifftransitionproject.org.uk

Eva Trier, Prosiect Trawsnewid Caerdydd

Gwneud Defnydd Creadigol o Dreftadaeth Caerdydd

Mae cymeriad ein dinas a'i hamgylchedd hanesyddol yn meithrin ymwybyddiaeth o leoliad a hunaniaeth ddiwylliannol. Mae'n cyfoethogi ansawdd ein bywyd ac yn ychwanegu at arbenigrwydd rhanbarthol a lleol. Mae'n un o'n hasedau cymdeithasol pwysicaf, yn cysylltu pobl â lleoedd, ac mae hefyd yn ased economaidd sy'n cyfrannu'n helaeth at dwristiaeth a lefelau buddsoddiad. Mae'n holl bwysig i ni reoli amgylchedd hanesyddol ein dinas a'i drosglwyddo'n sensitif ac yn gynaliadwy i'r cenedlaethau a ddaw*.
Gwelir isod ddwy enghraifft eithriadol o brosiectau adeiladu diweddar yng Nghaerdydd yn gwneud defnydd creadigol o dreftadaeth ein dinas, gan anadlu bywyd newydd i mewn i adeiladau rhestredig oedd wedi mynd yn segur.

*Ffynhonnell: Grŵp Amgylchedd Hanesyddol: Datganiad Strategaeth Ddrafft

Tŵr Dŵr, Cyncoed, Caerdydd
Penseiri Loyn a'i Gwmni

Enillodd adferiad Penseiri Loyn a'i Gwmni o'r Tŵr Dŵr, adeilad rhestredig Gradd II, yng Nghyncoed, Caerdydd, **y Fedal Aur am Bensaernïaeth** yn Eisteddfod Genedlaethol y llynedd - gorchest eithriadol i brosiect preswyl oherwydd, fel arfer, adeiladau cyhoeddus sy'n cipio'r Fedal.
Mae'r cyfuniad creadigol hwn o bensaernïaeth hen a modern wedi dod yn nodwedd o waith Chris Loyn a'i gydweithwyr. Enillodd y prosiect hefyd y wobr **Adferiad Gorau** yng Ngwobrau'r cylchgrawn - *Grand Designs Magazine*.

Trawsnewidiad Wallich o'r cyn Eglwys Bresbyteraidd, Ffordd y Gadeirlan, Caerdydd
Penseiri Latter Davies

Rhoddwyd adfywiad cyffrous i'r eglwys ddiddefnydd hon fel cartref i elusen y digartref y *Wallich* yn 2007. Mae cael hyd i brosiectau cymwys ar gyfer adeiladau eglwysig gwag yn her yn aml, oherwydd y gofod mawr y tu mewn. Ateb dyfeisgar Latter Davies i'r broblem oedd creu strwythur swyddfa anarferol a gosgeiddig iawn, wedi'i lunio yn null cragen bren llong uchel. Bydd Cymdeithas Ddinesig Caerdydd yn enwebu'r trawsnewidiad gwirioneddol ysbrydoledig hwn ar gyfer Gwobrau Dylunio Lleol Cymru 2008.



Ymunwch â Ni!

Aelodaeth Unigol £7
Aelodaeth Ar Y Cyd £10

Cymdeithas Ddinesig Caerdydd
www.cardiffcivicsociety.co.uk

Crynodeb o'r Newyddion:

Ym mis Mehefin, cyhoeddwyd mai **Griff Rhys Jones** fydd Llywydd newydd yr Ymddiriedolaeth Ddinesig. Yr Ymddiriedolaeth Ddinesig yw'r elusen Brydeinig sy'n ymgyrchu am fannau gwell yn yr amgylchedd adeiledig ac yn yr amgylchedd gwyrdd, ac sy'n sefydliad mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru.
Mae'r ysgrifennwr, actor a difyrrwr hwn, a anwyd yng Nghaerdydd, yn gyflwynydd rhaglen y tair gyfres BBC, **Restoration**; mae hefyd wedi cyflawni sawl prosiect ei hun, yn arbennig adfer fferm yn Sir Benfro a ffilmiwyd gan y BBC.
Dywedodd Griff Rhys Jones: "Dros Brydain gyfan mae pobl sy'n caru ac yn gofalu am eu trefi a'u dinasoedd, yn gweithio'n galed i gymryd cyfrifoldeb dros yr hyn sy'n effeithio ar bob un ohonom - ein tirwedd ddinesig. Rydw i'n eu cyfarch, eu parchu ac wrth fy modd i gael bod yn Llywydd arnynt ac i gefnogi gwaith yr Ymddiriedolaeth Ddinesig."